Cadw Cofrestr Elusennau Gywir

Cynnwys **Tudalen**

Am y cyhoeddiad hwn **1**

Pam mae'r Gofrestr yn bwysig? **2**

Cadw Cofrestr gywir **2**

Dileu sefydliad o'r Gofrestr **2**

Adolygu penderfyniad i ddileu sefydliad o'r Gofrestr **3**

Camreoli eiddo elusen **3**

Rhesymau dros ddileu sefydliad o'r Gofrestr **4**

A. Cofrestru ar gam 4

B. Amcanion nad ydynt yn elusennol mwyach o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau cymdeithasol 5

I. Canlyniadau ar gyfer eiddo a ddelir ar ymddiriedolaeth i sefydliad sy'n cael ei ddileu o'r Gofrestr oherwydd nid yw'n elusennol mwyach 6

(i) Eiddo a ddelir ar ymddiriedolaeth 6

(ii) Eiddo ymddiriedolaeth a ddelir ar gyfer cymdeithas anghorfforedig neu gorff a ymgorfforwyd gan Siartr Frenhinol 7

II. Canlyniadau ar gyfer eiddo a ddelir gan gwmni elusennol sy'n cael ei ddileu o'r Gofrestr oherwydd nid yw'n elusennol mwyach 7

C. Amcanion nad ydynt yn elusennol mwyach o ganlyniad i newid cyfansoddiadol 8

Atodiad A - Dileu sefydliadau o'r Gofrestr **9**

Atodiad B - Ffug elusennau **11**

Atodiad C - Elusennau a gofrestrwyd ar gam **13**

Atodiad Ch - Defnyddio asedion cy-près **15**

Atodiad D - Eiddo a ddelir gan gwmnïau elusennol **16**

Am y cyhoeddiad hwn

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn crynhoi'r camau y bydd y Comisiwn yn eu cymryd, a'r rhesymau dros y camau hynny, os yw'n glir nad yw'r Gofrestr Elusennau yn gofnod cywir o'r sefydliadau hynny sydd â statws elusennol ac a ddylai fod ar y Gofrestr.

2. Cafodd y mater hwn ei ystyried fel rhan o'r Adolygiad o'r Gofrestr Elusennau[1]. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad cyhoeddus a arweiniodd at lunio'r polisi a esbonnir yn y

[1] Mae ein cyhoeddiad RR1 - Yr Adolygiad o'r Gofrestr Elusennau - yn esbonio'r prosesau adolygu yn fanwl a hefyd nodweddion hanfodol elusennau.

cyhoeddiad hwn. Mae esboniadau manwl o agweddau ar ein polisi i'w gweld yn yr atodiadau.

Pam mae'r Gofrestr yn bwysig?

3. Mae cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yn cadarnhau statws elusennol. Ni all rhai categorïau o elusennau gael eu cofrestru, ac nid yw'n ofynnol i rai categorïau o elusennau gofrestru sef:

- elusennau a elwir yn "elusennau a esgusodir". Mae'r rhain wedi'u hesgusodi o'n hawdurdod arolygol ac ni allant gofrestru gyda ni;
- elusennau sydd wedi'u heithrio trwy Orchymyn neu Reoliadau o unrhyw ofyniad i gofrestru;
- elusennau sydd heb waddoliad parhaol, nid ydynt yn defnyddio unrhyw dir ac mae eu hincwm o bob ffynhonnell yn llai na £1,000 y flwyddyn;
- nid yw'n ofynnol i unrhyw elusen gofrestru os yw'n ymwneud â lle addoli cofrestredig.

4. Ar wahân i'r categorïau hyn mae cofrestru yn rhoi cydnabyddiaeth i sefydliadau o'u statws elusennol. Mae Adran 4 Deddf Elusennau 1993 yn nodi'r canlynol - "tybir yn derfynol, ar gyfer pob diben heblaw cywiro'r Gofrestr, bod sefydliad, neu y bu sefydliad yn elusen ar unrhyw adeg pan yw neu pan yr oedd ar y Gofrestr Elusennau".

5. Felly mae'n hynod bwysig bod y Gofrestr wedi'i chyfyngu i'r sefydliadau hynny sydd â hawl i'w statws elusennol gael ei gydnabod trwy gofrestru.

Cadw Cofrestr gywir

6. Mae ein cyfrifoldeb i gadw Cofrestr gywir yn golygu bod angen i ni roi sylw arbennig i'r camau y mae'n rhaid i ni ac ymddiriedolwyr sefydliadau ar y Gofrestr eu cymryd er mwyn sicrhau bod eiddo elusennau yn parhau i gael eu defnyddio at ddibenion elusennol.

7. Defnyddir ein pwerau i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol ac i adnabod a chydnabod amcanion elusennol newydd. Bydd sefydliadau gydag amcanion elusennol newydd o'r fath yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr, ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl feini prawf eraill ar gyfer cofrestru. Ar yr un pryd, mae'n bosib bod rhai sefydliadau ar y Gofrestru **nad** ydynt yn elusennol.

Dileu sefydliad o'r Gofrestr

8. Fel cam olaf, ar ôl mynd ar hyd pob trywydd arall, mae dyletswydd arnom, dan adran 3(4) Deddf Elusennau 1993, i ddileu sefydliad o'r Gofrestr os yw'n ymddangos i ni nad yw'r sefydliad hwnnw yn elusen mwyach[2]. Wrth

[2] Nid yw cyflawni ein dyletswydd dan adran hon y Ddeddf yn dibynnu ar dderbyn cais allanol yn gofyn am ddileu sefydliad o'r Gofrestr. Mae Adran 4(2) yn galluogi person sy'n cael ei effeithio gan statws corff fel elusen gofrestredig i wneud cais i ni i'w ddileu. Gall ceisiadau o'r fath gael eu cyflwyno gan rywun sydd â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill a gall y rhain gael eu niweidio gan ddosbarthiad corff fel elusen.

gwrs ni fyddwn yn gwneud hyn oni bai fod rhesymau clir dros wneud hyn. Nodir y sail gyfreithiol dros ddileu sefydliad o'r Gofrestr yn Atodiad A. Mae hyn yn cynnwys esboniad o'n rhwymedigaeth i ddileu unrhyw elusen nad yw'n bodoli mwyach neu unrhyw elusen sy'n segur.

9. Os yw sefydliad yn cael ei ddileu o'r Gofrestr oherwydd ei fod yn ymddangos i ni nad yw'n elusen mwyach, mae dyletswydd arnom i ystyried:

- a yw ymddiriedolaethau elusennol (er gwaetha'r ffaith nad yw'r sefydliad ei hun yn elusen mwyach) yn parhau i fod yn gymwys i eiddo sy'n gysylltiedig â'r sefydliad; ac, os felly

- pa gamau y dylem eu cymryd i orfodi'r ymddiriedolaethau hynny.

Adolygu penderfyniad i ddileu sefydliad o'r Gofrestr

10. Ni fyddai'r Comisiwn yn gwneud penderfyniad i ddileu sefydliad o'r Gofrestr oherwydd ei fod yn ymddangos nad yw'n elusen mwyach heb ystyried y mater o ddifrif. Bydd cyfle gan y sefydliadau dan sylw i ofyn i ni gynnal adolygiad mewnol o benderfyniad rhagarweiniol i'w ddileu o'r Gofrestr. Cynhelir hwn gan rywun sy'n annibynnol o'r penderfyniad gwreiddiol. Rhaid gwneud cais i adolygu un o'n penderfyniadau o fewn tri mis o ddyddiad y penderfyniad perthnasol. Yn gyfreithiol mae'r sefydliad yn aros ar y gofrestr yn ystod y cyfnod hwn. Mae arweiniad llawn ar y gweithdrefnau ar gyfer adolygu ein penderfyniadau wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ar y safle "Gwybodaeth am y Comisiwn Elusennau" sy'n ymddangos dan yr eicon "Amdanon ni". Gellir gofyn am gopïau papur o'r arweiniad hwn yn unrhyw un o'n swyddfeydd.

11. Ar ôl cynnal adolygiad annibynnol mewnol, os ydym yn cadarnhau'r penderfyniad i ddileu sefydliad o'r Gofrestr, neu os na chyflwynwyd cais am adolygiad o fewn y cyfnod o dri mis y soniwyd amdano uchod, mae'r penderfyniad i'w ddileu yn weithredol yn ôl y gyfraith, ac mae'r sefydliad yn cael ei ddileu o'r gofrestr. Yna mae hawl gan y sefydliad yr effeithir arno i apelio yn erbyn y penderfyniad i'w ddileu yn yr Uchel Lys (adran 4(3) Deddf Elusennau 1993). Bydd y Twrnai Gwladol yn hytrach na'r Comisiwn yn cynnal yr achos hwn.

Camreoli eiddo elusen

12. Rhaid gwahaniaethu rhwng yr angen i gadw Cofrestr gywir (h.y. Cofrestr sydd ond yn cynnwys sefydliadau sydd ag amcanion sy'n elusennol yn ôl y gyfraith) a sefyllfa lle mae amcanion sefydliad yn amlwg yn elusennol, ond lle mae'r ymddiriedolwyr yn ei weithredu mewn ffordd sy'n groes i'w amcanion elusennol.

13. Mae'n bosib i sefydliad gael **gweithgareddau** nad ydynt yn elusennol, er bod ei **amcanion** yn elusennol. Os mai dyma yw'r achos, byddwn yn cynnig cyngor ar y ffyrdd y gall y sefydliad barhau i gyflawni ei amcanion trwy weithredu mewn ffordd elusennol yn unig. Gallai hyn gynnwys cyfyngu ar rai gweithgareddau presennol neu eu newid neu eu neilltuo i is-gwmnïau anelusennol.

14. Mewn achosion lle mae ymddygiad ymddiriedolwyr yn cael ei ystyried yn "gamymddygiad" neu'n "gamreoli", ni fyddwn fel rheol yn dileu sefydliad o'r Gofrestr. Yn lle hynny, byddwn yn defnyddio ein pwerau adfer er mwyn sicrhau bod yr elusen yn dilyn ei hamcanion elusennol. Mae ein canllaw **Ymchwiliadau i Elusennau** (**CC47**) yn esbonio yn gyffredinol y pwerau sydd gennym i ymchwilio i elusennau ac unioni pethau. Eithriad i hyn fydd y nifer cyfyngedig iawn o achosion lle y dangosir bod y sefydliad yn un ffug. Esbonnir yr hyn a olygir wrth "ffug" yn Atodiad B.

Rhesymau dros ddileu sefydliad o'r Gofrestr

A. Cofrestru ar gam

15. Efallai fod sefydliad na fu **erioed** yn elusennol wedi cael ei roi ar y Gofrestr ar gam. Gallai hyn fod wedi digwydd oherwydd:

- rhoddwyd gwybodaeth ffug neu anghywir i ni adeg cofrestru;
- gwnaethpwyd camgymeriad;
- datgelir, trwy benderfyniad dilynol gan y llys, bod barn gyffredinol y gyfraith yn anghywir;
- dangoswyd, ers cofrestru, bod y sefydliad yn un ffug.

16. Beth bynnag fo'r rheswm dros gofrestru ar gam, ar ôl iddo gael ei gydnabod, mae dyletswydd arnom dan adran 3(4) Deddf Elusennau 1993 i gywiro'r Gofrestr trwy ddileu'r sefydliad. Os ydym yn dileu sefydliad o'r Gofrestr oherwydd bod ei gynnwys yn gamgymeriad, ni fydd yr asedion erioed wedi cael eu dal at ddibenion elusennol. Dyma'r achos hyd yn oed os cawsant eu hystyried felly adeg cofrestru. Mae dileu'r sefydliad o'r Gofrestr yn cywiro'r camgymeriad hwn.

17. Bydd asedion sefydliad na fu **erioed** yn elusen yn ôl y gyfraith yn aros gyda'r sefydliad hwnnw adeg ei ddileu o'r Gofrestr[3]. Ni fydd yr asedion ar gael yn awtomatig ar gyfer dibenion elusennol eraill. Gwerthfawrogwn y gallai'r ymagwedd hon adael y sefydliad gyda'r budd o ostyngiadau treth a'r cyfraniadau a gafodd ar sail yr hyn sydd erbyn hyn yn gamddealltwriaeth ei fod yn elusen, pan yr oedd ar y Gofrestr. Mae Atodiad C yn amlinellu ein rhesymau a'n dadleuon cyfreithiol dros y farn hon.

18. Mae'r esboniad uchod yn berthnasol i asedion sy'n eiddo i sefydliad na fu erioed yn elusen ond a gafodd ei gofrestru fel un ar gam. Wrth gwrs, mae'n berffaith bosib i rodd gael ei wneud ar ymddiriedolaeth ar gyfer dibenion elusennol arbennig (h.y. ar ymddiriedolaethau arbennig) mewn perthynas â sefydliad sydd wedi cael ei gofrestru fel elusen ar gam.

19. Os yw'r sefydliad yn gwmni, y sefydliad ei hun fydd ymddiriedolwr yr asedion hynny yn ôl pob tebyg: os nad yw'r sefydliad yn gwmni, yna ei ymddiriedolwyr fydd ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth arbennig. Gellir cofrestru'r ymddiriedolaethau a'u gorfodi fel ymddiriedolaethau elusennol yn y ffordd arferol, er bod y sefydliad ei hun wedi cael ei ddileu o'r Gofrestr.

[3] Yn amodol ar unrhyw hawliadau gwrthgefn e.e. gan gyfranwyr.

20. Bwriad penodol neu ymhlyg y cyfrannwr yw'r peth pwysig wrth benderfynu beth yw'r ymddiriedolaethau arbennig. Nid yw amcanion y sefydliad y mae'r ymddiriedolaethau arbennig yn gysylltiedig â nhw yn berthnasol.

B. Amcanion nad ydynt yn elusennol mwyach o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau cymdeithasol

21. Efallai fod sefydliad wedi cael ei roi ar y Gofrestr yn gywir ond oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol gall ymddangos i ni ei fod yn bosib nad yw'n elusennol mwyach - gweler Atodiad Ch. Gallwn edrych ar hawl sefydliad i aros ar y Gofrestr mewn nifer o amgylchiadau - er enghraifft, o ganlyniad i'r broses o Adolygu'r Gofrestr[4] neu o ganlyniad i gais cofrestru sy'n cael ei ystyried ar y pryd.

22. Cyn i'r amgylchiadau godi, ni allwn, ac yn wir, ni ddylwn ragfynegi pa ddibenion fydd yn peidio â bod yn elusennol oherwydd newid mewn amgylchiadau cymdeithasol. Yr hyn y gallwn ei ddweud yw y bydd unrhyw newid mewn statws diben arbennig yn cael ei drafod yn llawn gyda'r sefydliadau dan sylw. Byddwn yn rhoi cymaint o wybodaeth ymlaen llaw â phosib i unrhyw sefydliad sy'n ymddangos i ni nad yw'n elusennol mwyach oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol.

23. Mewn amgylchiadau o'r fath, y cam cyntaf fydd i ni ymgynghori â'r ymddiriedolwyr ac i'r ymddiriedolwyr ystyried, gyda ni, a yw **holl** amcanion yr elusen yn elusennol mwyach neu beidio.

24. Os oes mwy nag un amcan gan y sefydliad, ac os yw o leiaf un o'r amcanion yn aros yn elusennol (er nad yw'r amcan(ion) eraill yn cael ei ystyried yn elusennol mwyach) bydd yn gyfreithiol rwymol i'r ymddiriedolwyr ddefnyddio eiddo'r sefydliad ar gyfer yr amcan(ion) sy'n elusennol o hyd yn unig[5]. Mewn amgylchiadau o'r fath, fel rheol byddem yn disgwyl i ymddiriedolwyr wneud trefniadau priodol i ddileu amcan(ion) anelusennol o ddogfen lywodraethol yr elusen.

25. Ond, os yw'n ymddangos i ni nad yw sefydliad yn elusen mwyach, bydd y camau sydd i'w cymryd yn amrywio. Rhaid penderfynu a yw'r eiddo yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth, neu a yw'n cael ei ddal yn fuddiol gan gwmni yn ei rinwedd corfforaethol. Mae'r gwahaniaeth rhwng eiddo corfforaethol sy'n cael ei berchen yn fuddiol gan gwmni ac eiddo a ddelir ar ymddiriedolaeth, naill ai gan gwmni neu gan unrhyw ymddiriedolwyr eraill, yn bwysig.

[4] Mae'r broses o Adolygu'r Gofrestr yn un barhaus, a esbonnir yn ein cyhoeddiad RR1.
[5] Yn amodol ar ychwanegu amcanion elusennol eraill trwy gynllun cy-près neu fel arall. Gall y sefyllfa fod yn wahanol os yw'r elusen yn gwmni: yn ein barn ni, byddai'n rhaid i aelodau'r cwmni basio penderfyniad arbennig i ddileu'r amcan anelusennol o'i femorandwm cwmni, er mwyn i'r amcan hwnnw beidio â bod yn amcan y cwmni. Os ydynt yn gwrthod gwneud hynny, byddai'r canlyniadau fel yr hyn a ddisgrifir ym mharagraffau 36 a 37 ac Atodiad D.

26. Mae unrhyw eiddo a ddelir ar ymddiriedolaeth elusennol wedi'i ymrwymo'n ddi-alw'n ôl i elusen[6] (h.y. rhaid iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion elusennol bob amser - gweler paragraff 31). Dyma'r achos os yw'r ymddiriedolaethau:

- wedi cael eu datgan yn benodol gan gyfrannwr; neu
- yn ymhlyg ar sail arwyddion sy'n awgrymu mai bwriad y cyfrannwr oedd creu ymddiriedolaeth; neu
- wedi eu gosod gan adran 64(1) Deddf Elusennau 1993, pan fydd cwmni elusennol yn newid ei gyfansoddiad er mwyn peidio â bod yn elusen; neu
- fel arall wedi'u gosod gan y gyfraith, ar y sail y byddai'n annheg i berchennog cyfreithiol yr eiddo dan sylw i arddel perchnogaeth fuddiol.

27. Ond, mae eiddo sy'n cael ei berchen gan gwmni'n fuddiol (h.y. ar gyfer ei ddibenion cyffredinol yn hytrach nag ar ymddiriedolaeth) yn gymwys i'r dibenion hynny os ydynt yn elusennol gyfreithiol neu beidio.

I. Canlyniadau ar gyfer eiddo a ddelir ar ymddiriedolaeth i sefydliad sy'n cael ei ddileu o'r Gofrestru oherwydd nid yw'n elusennol mwyach

28. Mae eiddo yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth os yw'r sefydliad elusennol yn ymddiriedolaeth, yn sefydliad anghorfforedig, neu'n gorff a ymgorfforwyd gan Siartr Frenhinol. Mae eiddo hefyd yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth elusennol gan gwmni os oes tystiolaeth bod yr eiddo yn cael ei roi i gwmni ar ymddiriedolaeth ar gyfer ei ddibenion elusennol yn hytrach na chyfraniad i'w eiddo corfforaethol neu os yw ymddiriedolaeth wedi cael ei gosod trwy adran 64(1) Deddf Elusennau 1993. Bydd cwmni sy'n dal gwaddoliad parhaol bob amser yn ei ddal fel eiddo ymddiriedolaeth, yn hytrach na rhan o'i eiddo corfforaethol.

(i) Eiddo a ddelir ar ymddiriedolaeth

29. Y cam cyntaf ym mhob achos lle mae eiddo yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth yw i'r ymddiriedolwyr ystyried a ydynt am newid telerau eu dogfen lywodraethol i gael amcanion sy'n elusennol yn unig.

30. Mae dogfennau llywodraethol rhai sefydliadau yn cynnwys pwerau sy'n galluogi'r ymddiriedolwyr (neu aelodau'r elusen) i newid yr amcanion eu hunain. Os yw'r ddogfen lywodraethol yn cynnwys pwerau o'r fath, gellir eu defnyddio i newid ei thelerau i gynnwys amcanion sy'n elusennol yn unig. Efallai y byddwn yn barod i roi pwerau o'r fath i sefydliadau sydd heb y rhain. Mewn rhai achosion gall ymddiriedolwyr ddefnyddio'r pwerau yn adran 74 Deddf Elusennau 1993 i'r diben hwn.

[6] oni bai fod hyd yr ymddiriedolaeth wedi'i gyfyngu'n bendant, e.e fel yn achos elusen amser.

31. Yn ôl y gyfraith, mae asedion a ddelir ar ymddiriedolaeth elusennol wedi'u hymrwymo'n ddi-alw'n ôl i ddibenion elusennol. Felly, os nad yw'r ymddiriedolwyr yn gallu, neu os nad ydynt yn barod eu hunain i wneud newidiadau i amcanion eu helusen er mwyn i'r rhain fod yn elusennol yn unig, yna rhaid iddynt wneud cais i ni i wneud cynllun cy-près sy'n cyfarwyddo bod yr asedion a ddelir ar ymddiriedolaeth yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol eraill sydd mor debyg â phosib i ddibenion gwreiddiol y sefydliad. Gallwn helpu ymddiriedolwyr wrth wneud cais o'r fath. Mae Atodiad Ch yn amlinellu'r awdurdod cyfreithiol dros yr ymagwedd hon.

32. Mae ein cyhoeddiad **Gwneud Cynllun** (**CC36**) yn rhoi gwybodaeth ar y broses o wneud cynllun. Bydd telerau'r cynllun cy-près yn pennu'r hyn a fydd yn digwydd i'r sefydliad. Os gwneir cynllun sy'n cyfarwyddo y bydd yr eiddo yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amcanion elusennol newydd, bydd yr ymddiriedolaeth yn aros ar y Gofrestr. Os yw'r cynllun yn cyfarwyddo y bydd yr eiddo yn cael ei ddal gan sefydliad elusennol arall, caiff y sefydliad gwreiddiol ei ddileu o'r Gofrestr.

(ii) Eiddo ymddiriedolaeth a ddelir ar gyfer cymdeithas anghorfforedig neu gorff a ymgorfforwyd gan Siartr Frenhinol

33. Yn achos cymdeithas anghorfforedig neu gorff a ymgorfforwyd gan Siartr Frenhinol, delir eiddo ar ymddiriedolaeth at ddibenion y sefydliad. Os nad yw'r dibenion hyn yn elusennol mwyach ac os nad yw'r sefydliad yn ceisio newid ei gyfansoddiad i gael dibenion elusennol yn unig, bydd dyletswydd ar yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am reoli'r eiddo i wneud cais i ni am gynllun i ddarparu dibenion elusennol y gellir defnyddio'r eiddo ar eu cyfer. Ar ôl i'r cynllun gael ei wneud, bydd yr ymddiriedolwyr yn dal yr eiddo ar gyfer dibenion elusennol newydd a gellir cofrestru'r ymddiriedolaeth honno yn y ffordd arferol.

34. Mae'n arferol i gofrestru'r sefydliad ei hun, yn hytrach nag ymddiriedolaeth ei eiddo. Mae'r egwyddor gyfreithiol a ddisgrifir ym mharagraff 31 yn golygu bod y sefydliad yn cael ei ddatgysylltu o'r eiddo ymddiriedolaeth a ddalwyd yn flaenorol mewn perthynas ag ef os nad yw'r sefydliad yn newid ei gyfansoddiad i gael dibenion elusennol yn unig. Yn yr amgylchiadau hyn bydd yn ofynnol i ni ddileu'r sefydliad gwreiddiol o'r Gofrestr gan nad yw'n ymddangos i ni ei fod yn elusen mwyach.

35. Mae effaith adran 3(4) Deddf 1993, pan gaiff ei darllen yn sgîl adran 4(1) (tybiaeth derfynol o statws elusennol tra ei fod ar y Gofrestr) ac adran 13(1)(e)(ii) (cy-près ar sefydliad sy'n peidio â bod yn elusennol yn ôl y gyfraith) yn golygu na fydd sefydliad o'r fath yn colli ei statws elusennol hyd nes ei fod yn cael ei ddileu o'r Gofrestr.

II. Canlyniadau ar gyfer eiddo a ddelir gan gwmni elusennol sy'n cael ei ddileu o'r Gofrestr oherwydd nid yw'n elusennol mwyach

36. Ni ddelir eiddo corfforaethol cwmni elusennol ar ymddiriedolaeth yn gyffredinol. Trwy'r wybodaeth a gafwyd o ganlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus, daethpwyd i gasgliad petrus ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd i eiddo a ddelir gan gwmni elusennol pan yw'n ymddangos nad yw amcanion

y cwmni yn elusennol yn unig mwyach oherwydd newid mewn amgylchiadau neu werthoedd cymdeithasol. Mae'r casgliad yn betrys oherwydd hyd yn hyn, nid yw'r Llysoedd na'r Comisiwn wedi cael achos lle y bu angen gwneud penderfyniad ar y materion sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau hyn. Wrth gwrs, mae'n bosib na fydd achos o'r fath yn codi byth.

37. Mae ein casgliad ni, a esbonnir yn fanwl yn Atodiad D, yn tueddu i ffafrio gosod ymddiriedolaeth elusennol ffurfiannol ar eiddo corfforaethol cwmni dan berchnogaeth fuddiol sydd yn y sefyllfa hon. Os yw hyn yn iawn, mae'r canlyniadau ar gyfer eiddo corfforaethol y cwmni yn debyg i'r rheiny a ddisgrifir ym mharagraffau 28 i 32.

C. Amcanion nad ydynt yn elusennol mwyach o ganlyniad i newid cyfansoddiadol

38. Mae'n bosib bod sefydliad wedi cael ei roi yn gywir ar y Gofrestr ond ei fod wedi gwneud newidiadau cyfansoddiadol dilys yn ddiweddarach sy'n golygu nad yw wedi'i sefydlu mwyach at ddibenion elusennol yn unig.

39. Mae'r camau y byddwn ni a'r ymddiriedolwyr yn eu cymryd yn yr amgylchiadau hyn yn debyg i'r rheiny a ddisgrifir ym mharagraffau 28 i 35 uchod. Mae ymddiriedolaeth elusennol statudol yn cael ei gosod ar eiddo corfforaethol cwmni[7] yn yr amgylchiadau hyn[8] felly nid yw'r drafodaeth ym mharagraffau 36 a 37 yn berthnasol yma.

[7] heblaw ei gyfalaf

[8] gan adran 64(1) Deddf 1993 erbyn hyn.

Dileu sefydliadau o'r Gofrestr

A1. Yn ôl Adran 3(1) Deddf Elusennau 1993:

> "Bydd y Comisiynwyr yn parhau i gadw Cofrestr elusennau, a gaiff ei chadw ganddynt mewn ffordd sy'n briodol yn eu barn nhw".

Mae hyn yn amlinellu ein rhwymedigaeth benodol i gadw Cofrestr o sefydliadau sy'n elusennau.

A2. Yn ôl Adran 4(1) Deddf 1993:

> "Tybir yn derfynol bod sefydliad neu y bu sefydliad, at bob diben heblaw cywiro'r Gofrestr, yn elusen ar unrhyw adeg pan yw neu pan yr oedd ar y Gofrestr elusennau".

Mae hyn yn egluro na ddylai'r Gofrestr gynnwys sefydliadau nad ydynt yn elusennau.

A3. Yn ôl Adran 3(4) Deddf Elusennau 1993:

> "Caiff unrhyw sefydliad sy'n ymddangos i'r Comisiynwyr nad yw'n elusen mwyach ei ddileu o'r Gofrestr a bydd hyn yn weithredol, os yw ei ddileu yn ganlyniad i unrhyw newid yn ei ddibenion neu ymddiriedolaeth, o ddyddiad y newid hwnnw; a chaiff unrhyw elusen sy'n peidio â bodoli neu'n peidio â gweithredu ei ddileu o'r Gofrestr hefyd".

A4. Mae'n ofynnol i ni, yn ôl yr adran hon, i ddileu sefydliad sy'n ymddangos i ni - am ba bynnag reswm - nad yw'n elusennol mwyach. Rhaid dileu pum math o sefydliad o'r Gofrestr dan y ddyletswydd hon:

1. Sefydliadau a gafodd eu hystyried yn gywir gennym, adeg cofrestru, eu bod yn elusennol ond sydd wedi gwneud newidiadau cyfansoddiadol dilys ers hynny sy'n golygu na allwn barhau i ystyried eu bod wedi'u sefydlu at ddibenion elusennol yn unig. Yn yr achos hwn, mae colli statws elusennol yn digwydd o ddyddiad y newidiadau.

2. Sefydliadau a oedd yn elusennol yn wreiddiol ond, heb unrhyw newid cyfansoddiadol, nid yw'n ymddangos i ni eu bod yn elusennau mwyach oherwydd newidiadau yng ngwerthoedd y gymdeithas sydd wedi arwain i ganfyddiad gwahanol o natur ac effaith dibenion y sefydliadau. Yn yr achos hwn, mae colli statws elusennol yn digwydd o'r dyddiad y mae'r sefydliad yn cael ei ddileu o'r Gofrestr.

3. Sefydliadau nad oeddent byth yn elusennol, ond a gafodd eu hystyried eu bod yn elusennol ar gam adeg cofrestru, ac mae'r camgymeriad wedi cael ei gydnabod ers hynny.

4. Sefydliadau sydd wedi peidio â bodoli: er enghraifft, cwmni neu sefydliad anghorfforedig sy'n dirwyn i ben, neu ymddiriedolaeth sy'n cael ei therfynu, yn canlyn y pwerau priodol.

5. Sefydliadau nad ydynt yn gweithredu, er enghraifft, sefydliad nad yw'n ymgymryd ag unrhyw weithgareddau ac sy'n segur.

Ffug elusennau

B1. Mewn rhai achosion prin bydd rhaid i'r Comisiwn ystyried y posibilrwydd bod corff sydd wedi cael ei gofrestru fel elusen yn un ffug mewn gwirionedd.

B2. Bydd y llys yn gwrthod gorfodi ymddiriedolaeth pe byddai hyn yn golygu ei fod yn cynorthwyo hybu diben gwrth-gymdeithasol pellach ar ran hyrwyddwyr yr ymddiriedolaeth. Ond mae'n rhaid i ymateb y llysoedd i ffug ymddiriedolaethau fod yn hyblyg. Nid trin yr ymddiriedolaeth fel un nad oes modd ei gorfodi fu'r unig ateb a fabwysiadwyd gan y llysoedd er mwyn sicrhau nad ydynt yn cynorthwyo wrth gamddefnyddio ymddiriedolaethau.

B3. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw achos lle mae'r llys yng Nghymru a Lloegr wedi dod i'r casgliad bod sefydliad a ffurfiwyd fel elusen yn un ffug mewn gwirionedd. Ond mae'r llysoedd wedi cydnabod yr angen i fod yn ymwybodol o ddogfennau ffug yng nghyd-destun elusennau. Yn **Re McDougall [1957] 1 WLR 321** wynebodd y barnwr ymddiriedolaeth ar gyfer dibenion elusennol a fynegwyd mewn iaith seml, ddiamwys. Nid oedd yn barod i ddehongli bod yr ymddiriedolaeth yn un ar gyfer diben gwleidyddol oherwydd y byddai'r ymddiriedolwyr yn aelodau o blaid wleidyddol.

B4. Yn yr achos hwnnw, nododd y barnwr nad oedd unrhyw un wedi awgrymu bod dogfen lywodraethol yr ymddiriedolaeth yn 'weithred ffug i guddio'r diben go iawn'. Ond mae'n amlwg bod y barnwr wedi ystyried, fel posibilrwydd cyfreithiol, y byddai'n rhaid iddo, gyda thystiolaeth wahanol, wneud penderfyniad nad oedd yn golygu bod y llys yn cynorthwyo sefydliad a ffurfiwyd fel elusen i gyflawni diben anelusennol.

B5. Os na ellir gorfodi ymddiriedolaeth elusennol honedig, nid yw sefydliad a ffurfiwyd ar gyfer dibenion elusennol yn bodoli[9]. Bydd sefydliad sydd wedi cael ei gofrestru fel elusen, a dangosir yn ddiweddarach ei fod yn un ffug, yn cael ei ddileu o'r Gofrestr ar y sail bod y cofrestriad gwreiddiol yn gamgymeriad.

B6. Mewn rhai achosion mae tystiolaeth wedi cael ei chyflwyno i'r Comisiwn bod dogfen lywodraethol sefydliad sydd wedi cael ei gofrestru fel elusen yn weithred ffug i guddio gwir amcanion y sefydliad. Mewn rhai achosion mae'n amlwg bod y gwir ddibenion hynny yn anelusennol, a hefyd yn anfoesol, yn dwyllodrus, yn anonest neu'n groes i bolisi cyhoeddus. Yn y cyd-destun hwn gall "yn groes i bolisi cyhoeddus" gynnwys ecsbloetio statws elusennol at ddibenion masnachol ac ymgymryd â phropaganda gwleidyddol.

[9] Hynny yw, sefydliad sy'n ddarostyngedig i reolaeth yr Uchel Lys wrth ymarfer awdurdod y Llys mewn perthynas ag elusennau - Adran 96(1) Deddf Elusennau 1993.

B7. Ar adegau bu raid i ni ystyried cymryd y camau y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw cydnabod sefydliad o'r fath fel elusen yn ei gynorthwyo i hybu'r dibenion anelusennol sylfaenol. Mae ystyried ymddiriedolaeth yn un na ellir ei gorfodi yn golygu bod rhaid dileu'r sefydliad o'r Gofrestr - gweler paragraff B5 - ond mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol i roi cyfle i'r sefydliad i roi'r gorau i'r gweithgareddau yr ystyrir eu bod yn anelusennol yn gyntaf.

B8. Ni fyddai'r Comisiwn yn dod i'r casgliad bod sefydliad a gofrestrwyd fel elusen yn un ffug heb ystyried y mater yn ofalus. Rhaid cadw mewn cof y gwahaniaeth rhwng ffug elusen ac elusen ddilys sy'n cael ei chamddefnyddio gan y rhai sy'n ei rheoli. Nid yw'n briodol i drin elusen ddilys sy'n cael ei chamddefnyddio gan y rhai sy'n ei rheoli yn yr un ffordd ag y byddem yn trin ffug elusen. Mae cyfrifoldeb statudol gennym i edrych ar gamddefnyddio elusennau, a chyflawnir y ddyletswydd hon trwy ddefnyddio ein swyddogaethau monitro, ymgynghorol ac arolygol. Byddem yn methu yn ein cyfrifoldeb pe byddem yn trin gweithgareddau anelusennol heb awdurdod fel tystiolaeth derfynol nad yw'r sefydliad yn elusen ddilys ond yn ffug elusen.

B9. Gall fod yn drosedd os yw unrhyw un yn rhoi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol i ni yn fwriadol er mwyn sicrhau cofrestru sefydliad y dangosir yn ddiweddarach ei fod yn un ffug - adran 11(1) Deddf Elusennau 1993.

Elusennau a gofrestrwyd ar gam

C1. Yn ein barn ni, mae cofrestru sefydliad sy'n ymddangos i ni yn ddiweddarach na fu byth yn elusen (gwnaethpwyd camgymeriad, neu rhoddwyd gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol i ni, neu oherwydd dangosir trwy benderfyniad dilynol y llys bod barn gyffredinol y gyfraith yn anghywir, neu oherwydd y dangoswyd bod y sefydliad, ers cael ei gofrestru, yn un ffug) yn rhywbeth sydd y tu allan i'n pwerau ni.

C2. Y rheswm am hyn yw ein dyletswydd dan adran 3(2) Deddf 1993 i "gofnodi pob elusen ar y Gofrestr" (oni bai ei wedi'n heithrio rhag cofrestru) ac nid unrhyw sefydliad arall. Mae'r egwyddor berthnasol[10] yn awgrymu bod cofrestru sefydliad nad oedd, adeg cofrestru, yn elusennol gyfreithiol, yn cael rhyw effaith gyfreithiol dim ond tan yr adeg pan fo'r camgymeriad wedi cael ei gywiro, er enghraifft, trwy ddileu sefydliad o'r Gofrestr[11].

C3. Ar ôl ei ddileu, nid yw unrhyw ganlyniadau cyfreithiol yn dilyn o'r penderfyniad anghywir gwreiddiol i gofrestru. Yn benodol mae'r sefydliad yn cael ei drin pe na fu erioed ar y Gofrestr, ac felly ni all y dybiaeth derfynol o statws elusennol yn adran 4(1), ar unrhyw adeg, "pan yr oedd ar y Gofrestr" fod yn gymwys iddo mwyach. Enghraifft o sefydliad sy'n cael ei roi ar y Gofrestr ar gam yw un a gafodd ei gofrestru trwy ddibynnu ar achos barnwrol y penderfynwyd yn ddiweddarach ei fod yn anghywir[12].

C4. Nid yw dileu sefydliad o'r Gofrestr yn dystiolaeth bendant nad yw'r sefydliad yn elusen. Yn syml, mae'n golygu nad yw'n ymddangos i ni mwyach bod y sefydliad yn elusen. Ond, yn ein barn ni, os yw elusen wedi cael ei dileu o'r Gofrestr, ac roedd ei chofrestriad gwreiddiol yn gamgymeriad, bydd materion sy'n ymwneud ag eiddo a statws sy'n berthnasol i'r sefydliad hwnnw a fydd yn codi ar ôl ei ddileu yn cael eu penderfynu'n gyfreithiol heb gyfeirio at y ffaith ei fod wedi'i gofrestru fel elusen ar un adeg.

C5. Mae hyn yn golygu na fydd eiddo y sefydliad sydd wedi cael ei ddileu o'r Gofrestr ar y sail na fu erioed yn elusen yn cael ei ystyried yn eiddo sydd wedi'i ymrwymo'n ddi-alw'n ôl at ddibenion elusennol. Gall eiddo o'r fath gynnwys unrhyw ostyngiadau treth a chyfraniadau a gafwyd ar sail y ddealltwriaeth anghywir ei fod yn elusen, yn ystod y cyfnod pan yr oedd ar y Gofrestr.

---

[10] Egwyddor "dirymedd ôl-weithredol deddfau *ultra vires* awdurdodau cyhoeddus".

[11] Gweler er enghraifft Lewis "Judical remedies in Public Law", pennod 5 (Rhifyn laf)..

[12] Er enghraifft, pe byddai'r drefn bresennol o gofrestru elusennau wedi bodoli yn 1895 (ac nid oedd yn bodoli bryd hynny), mae'n bosib y gallai cymdeithas gwrthfywddyraniad fod wedi cael ei chofrestru trwy ddibynnu ar farn yr Uchel Lys yn Re Foveaux [1895] 2 Ch 501. penderfynwyd bod y farn honno yn anghywir yn 1948 gan Dŷ'r Arglwyddi yn achos Cymdeithas Gwrthfywddyraniad Genedlaethol v IRC [1948] AC 31. Byddai'r gymdeithas wedi cael ei dileu o'r gofrestr ddamcaniaethol yn 1948 oherwydd cafodd ei rhoi arni ar gam.

C6. Mae'n bosib y bydd yr Adrannau Refeniw, mewn rhai amgylchiadau, yn gorfod ac yn dymuno gorfodi hawliadau statudol a/neu adfer yn erbyn y sefydliad er mwyn adennill y gostyngiadau a gafwyd ar sail y ddealltwriaeth anghywir ei fod yn elusen. Gall fod hawliadau adfer gan gyfranwyr hefyd mewn perthynas â'r cyfraniadau a roddwyd ar sail camddealltwriaeth debyg. Ond mae'r rhain yn faterion na all y Comisiwn gynnig cyngor manwl arnynt: y dybiaeth yw nad yw'r eiddo yn cael ei ddal at ddibenion elusennol.

C7. Os nad yw'r dadansoddiad hwn (nad yw unrhyw ganlyniadau cyfreithiol yn deillio o'r penderfyniad gwreiddiol anghywir i gofrestru) yn gywir, byddai'r penderfyniad i'w ddileu yn cael effaith yn y dyfodol yn unig h.y. dim ond o adeg ei ddileu. Byddai hyn yn creu dau anhawster.

- Y cyntaf yw y gall y dybiaeth bod asedion a ddelir ar ymddiriedolaeth elusennol wedi'u hymrwymo'n ddi-alw'n ôl i elusen fod yn gymwys i asedion y sefydliad a byddai'n rhaid i'r asedion hyn gael eu defnyddio *cy-près*. Byddai hyn yn golygu, os na fu'r sefydliad erioed yn elusen, bod ei asedion yn rhodd orfodol i elusen.

- Yr ail yw na all fod sail foddhaol ar gyfer penderfynu i ba ddibenion elusennol y dylid cymhwyso'r rhodd orfodol honno. Gan na fu'r sefydliad erioed yn elusen yn ôl y gyfraith, ni fyddai unrhyw fan cychwyn ar gyfer penderfynu pa ddibenion elusennol fyddai'n *cy-près*.

Defnyddio asedion *cy-près*

Ch1. Amlinellir yr amgylchiadau pan y dylid defnyddio eiddo elusennau *cy-près* yn adran 13(1) Deddf Elusennau 1993. Yn ôl adran 13(1)(e)(ii) gellir newid dibenion rhodd elusennol er mwyn gallu defnyddio'r eiddo a roddwyd *cy-près*:

> "Os yw'r dibenion gwreiddiol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ers iddynt gael eu gosod, wedi:-
>
> (ii) peidio â bod yn elusennol yn ôl y gyfraith oherwydd eu bod yn ddi-werth neu'n niweidiol i'r gymuned neu am resymau eraill."

Ch2. Mae'r adran hon o'r Ddeddf yn sôn am yr amgylchiadau pan nad yw sefydliad yn elusennol mwyach naill ai oherwydd ei fod wedi newid ei gyfansoddiad i gael dibenion anelusennol[13] neu oherwydd nad yw ei ddibenion yn cael eu hystyried yn elusennol mwyach yn ôl y gyfraith oherwydd newid mewn amgylchiadau neu werthoedd cymdeithasol[14].

Ch3. Cafodd dyletswydd ymddiriedolwyr i gymryd camau positif i ddefnyddio eu heiddo cy-près os nad oedd eu sefydliad yn elusennol mwyach yn ôl y gyfraith ei datgan yn wreiddiol gan yr Arglwydd Simonds yn **Cymdeithas Gwrthfywddyraniad Genedlaethol v IRC [1948] AC 31**, 74 lle y dywedodd:

> "Os yw dibenion elusen sefydledig, trwy newid mewn arferion ac anghenion cymdeithasol, neu efallai, trwy newid yn y gyfraith, yn ddiangen neu hyd yn oed yn anghyfreithlon, neu gyda gwybodaeth gynyddol, mae'n ymddangos bod diben y tybir ar un adeg ei fod yn fuddiol yn niweidiol i'r gymuned mewn gwirionedd, dyletswydd ymddiriedolwyr elusen sefydledig yw wneud cais i'r Llys neu, mewn achosion addas i'r Comisiynwyr Elusennau ….. a gofyn i gynllun *cy-près* gael ei sefydlu".

Ch4. Rhoddwyd dyletswydd ymddiriedolwyr i wneud cais am gynllun cy-près mewn ffurf statudol yn yr hyn sydd bellach yn adran 13(5) Deddf Elusennau 1993 sy'n nodi:

> "Datgenir drwy hyn bod ymddiriedolaeth ar gyfer dibenion elusennol yn rhoi dyletswydd ar ymddiriedolwr, os yw'r achos yn caniatáu ac os yw'n ofynnol i'r eiddo neu ryw rhan o'r eiddo gael ei ddefnyddio *cy-près*, i sicrhau ei defnydd effeithiol i'r elusen trwy gymryd camau i'w galluogi i gael ei defnyddio felly".

Ch5. Mae'r gyfraith yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio eiddo *cy-près* mewn amgylchiadau perthnasol trwy roi pwerau i'r Comisiynwyr wneud cynllun, hyd yn oed os nad yw'r ymddiriedolwyr yn gwneud cais am gynllun o'u gwirfodd.

---

[13] **IRC v Cymdeithas Amaethyddol Swydd Efrog [1928] 1 KB 611, 633**.
[14] **Cymdeithas Gwrthfywddyraniad v IRC [1948] AC 31, 74**.

Eiddo a ddelir gan gwmnïau elusennol

D1. Sut dylid trin eiddo corfforaethol cwmni pan yw'n ymddangos nad yw'r amcanion a ddatgenir yn ei femorandwm cwmni yn elusennol mwyach oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol? Nid yw Erthygl 1 Protocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n ymwneud â diogelu eiddo yn cynnig unrhyw arweiniad ar hyn oherwydd byddai'n dod o fewn disgresiwn y Wladwriaeth.

D2. Yn ein barn ni, nid yw amcanion y cwmni a ddatgenir yn ei femorandwm cwmni, yn cael eu heffeithio gan y newid yng nghymeriad y cwmni, oni bai a hyd nes bod yr amcanion hynny yn cael eu newid yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 1985.

D3. Roedd y posibilrwydd y byddai amcanion cwmni elusennol (a ddatgenir yn ei femorandwm cwmni) a oedd yn y sefyllfa hon yn cael eu trawsffurfio'n awtomatig i ddibenion elusennol yn unig trwy weithrediad y gyfraith yn fater o ystyrieaeth yn y papur ymgynghorol cyhoeddus, ond ni chafodd ei gefnogi gan y rheiny a ymatebodd. Rydym yn dal i gredu bod newidiadau i amcanion cwmni trwy weithrediad y gyfraith yn groes i'r gyfraith cwmnïau. Mae Adran 2(1) (c) Deddf Cwmnïau 1985 yn dweud bod rhaid i femorandwm cwmni ddatgan amcanion y cwmni ac, wrth gwrs, efallai na fydd yn gwneud hynny os gellir newid yr amcanion trwy weithrediad y gyfraith.

D4. Un nod Deddf Elusennau 1985 yw sicrhau bod cofnod cyhoeddus digonol o amcanion **presennol** cwmnïau ar gael. Cyflenwir hyn trwy ofyn i gwmnïau roi manylion i'r Cofrestrydd Cwmnïau am unrhyw newidiadau a wneir i'w hamcanion trwy gyfrwng penderfyniad. Mae'n ymddangos nad yw darpariaethau'r Ddeddf yn ystyried y posibilrwydd o newid amcanion trwy weithrediad y gyfraith; yn wir, yn sgîl natur fetaffisegol unrhyw newid o'r fath, mae'n anodd gweld sut y gellid gweithredu unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â rhoi gwybod i'r Cofrestrydd Cwmnïau am unrhyw newid o'r fath.

D5. Felly y cwestiwn i'w ystyried mewn gwirionedd yw hyn; pan yw'n ymddangos nad yw amcanion cwmni a ddatgenir yn ei femorandwm cwmni yn elusennol mwyach oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol, a yw ymddiriedolaeth ar gyfer dibenion elusennol yn cael ei chysylltu â'r eiddo sydd ym mherchnogaeth fuddiol y cwmni. Os nad oes ymddiriedolaeth o'r fath, bydd yr eiddo hwnnw yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer amcanion y cwmni, er gwaetha'r ffaith nad yw eu heffaith gyfreithiol yn elusennol mwyach.

D6. Yn **James v Williams (1999) 3 All ER 309** dywedodd Aldous LJ:

> "Fel rheol gyffredinol mae ymddiriedolaeth ffurfiannol yn gysylltiedig yn ôl y gyfraith ag eiddo a ddelir gan rywun mewn unrhyw achos lle y byddai'n annheg iddo arddel perchnogaeth fuddiol lawn o'r eiddo".

D7. Os mai dyma yw'r achos bydd eiddo corfforaethol cwmni[15] yr oedd ei amcanion yn elusennol ar un adeg, ond nid yw'n ymddangos eu bod felly mwyach, yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer dibenion elusennol, a dylid (oni bai fod y cwmni yn dewis mabwysiadu amcanion sy'n parhau i fod yn elusennol) ei ddefnyddio cy-près. Wrth gwrs, byddai hyn yn golygu bod trin eiddo corfforaethol cwmnïau elusennol yn gyson â thrin mathau eraill o eiddo elusennau.

D8. Mae'r ddadl bod eiddo corfforaethol cwmni elusennol wedi'i ymrwymo'n ddi-alw'n ôl i ddibenion elusennol wedi'i seilio ar ddatganiadau barwnol mewn dau achos eithaf diweddar. Yn **Ysbyty Lerpwl a'r Ardal dros Glefydau'r Galon v Y Twrnai Gwladol [1981] 1 Ch 193**, 214, dywedodd Slade J:

> "Yn yr achos hwn, fel yr awgrymais, nid wyf o'r farn y cafodd asedion y Gymdeithas eu dal ganddynt yn amodol ar ymddiriedolaeth yn yr ystyr mwyaf manwl. Serch hynny, dan delerau ei chyfansoddiad, cawsant eu dal bob amser yn amodol ar rwymedigaeth gyfreithiol rwymol, a oedd yn ei wneud yn ofynnol iddynt eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig. Felly gellir dweud ymhellach bod safle'r Gymdeithas mewn perthynas â'i hasedion wedi bod yn ddigon tebyg bob amser i ymddiriedolaeth at ddibenion elusennol. Yn fy marn i, mae hyn yn ddigonol i weithredu awdurdod y Llys i orchymyn cynllun cy-près yn yr amgylchiadau dan sylw".

D9. Wrth ddod i'r casgliad y dylai asedion cwmni elusennol wrth iddo gael ei ddirwyn i ben gael eu defnyddio cy-près, cyfeiriodd Slade J at farn Buckley J a dibynnu ar y farn honno, yn **Re Vernon's Will Trusts [1972] Ch 300** pan ddywedodd:

> "Wrth ystyried a fyddai, ac i ba raddau y byddai yn iawn i ystyried bod cronfeydd y Gymdeithas anghorfforedig yn amodol ar ymddiriedolaeth elusennol, nid wyf am nodi mwy na hyn, sef, ei fod yn ymddangos bod unrhyw asedion a gymerwyd drosodd o'r Gymdeithas anghorfforedig yn amodol ar ymddiriedolaeth o'r fath. Ond, ymddiriedolaeth neu beidio, mae'n wir i ddweud bod asedion y Gymdeithas anghorfforedig i gyd wedi'u hymrwymo'n effeithiol i'r elusen. Ni allai unrhyw rai o'r cronfeydd hyn mewn unrhyw amgylchiadau - o leiaf heb ymyrraeth y Senedd - fod wedi cael eu defnyddio fel arall heblaw ar gyfer y math o ddibenion elusennol yr oedd y Gymdeithas yn bodoli ar eu cyfer cyhyd â bod y dibenion hynny yn ymarferol o hyd. Hyd yn oes os yw'r dibenion hynny yn peidio â bod yn ymarferol, ni fyddai'r elusen yn peidio â bodoli, er y byddai ei chronfeydd yn cael eu defnyddio cy-près. Ni allai elusen o'r fath, yr ystyriwyd ei bod yn elusen ac ar wahân i'r mecanwaith a ddarparwyd am y tro ac o bryd i'w gilydd ar gyfer dal ei heiddo a rheoli ei busnes, beidio â bodoli byth ac eithrio trwy

[15] heblaw ei gyfalaf tanysgrifenedig neu warantedig. Mae'n anodd gweld sut y gellid gosod ymddiriedolaeth o'r fath ar gyfalaf tanysgrifenedig neu warantedig cwmni heb wrthdaro â gofynion sylfaenol y gyfraith cwmnïau. Yn wir, mae cyfalaf o'r fath wedi'i eithrio o gwmpas yr ymddiriedolaeth statudol a osodir yn gyffredinol trwy adran 64(1) Deddf Elusennau 1993 ar eiddo corfforaethol cwmni sy'n colli statws elusennol o ganlyniad i newid cyfansoddiadol.

> ddisbyddu ei holl asedion a therfynu ei gweithgareddau. Ni allai newid yn ei hagwedd fecanyddol olygu bod yr elusen yn peidio â bodoli. Mae egwyddor y penderfyniad yn **Re Faraker [1912] 2 Ch 488** ac yn **Re Lucas [1948] Ch 424**, yn fy marn i, yr un mor gymwys i elusen anghorfforedig o'r math hwn ag elusen a gyfansoddwyd trwy gyfrwng ymddiriedolaeth. Mewn achosion o'r fath mae'r gyfraith yn ystyried bod yr elusen yn syniad haniaethol ar wahân i'r mecanwaith sefydliadol a ddarperir ar gyfer dal a gweinyddu cronfa'r elusen."

D10. Erbyn hyn, mae'n ymddangos yn ddigon clir nad yw eiddo corfforaethol cwmni elusennol, fel unrhyw gwmni arall, yn cael ei ddal yn gyffredinol ar ymddiriedolaeth. Yn **Rabin v Gerson Berger Association Limited** (1987 - heb ei adrodd ar y pwynt hwn), dywedodd Ralph Gibson LJ:-

> "Egwyddor y gyfraith, yn ôl fy nealltwriaeth i ohoni, yw nad yw cwmni sydd â dibenion elusennol yn unig, ar sail y nodwedd honno yn unig, yn dal ei holl eiddo ar ymddiriedolaeth; gall berchen ar eiddo yn fuddiol, eiddo y mae'n rhaid iddo, trwy ei gyfansoddiad, ei gymhwyso i'w ddibenion elusennol…."

D11. Er nad oedd y naill farnwr na'r llall yn achosion **Ysbyty Lerpwl** a **Vernon** wedi mynegi'r pwynt yn y ffordd hon, byddai'n ymddangos mai'r unig sail syniadol dros amddifadu cwmni o'i berchnogaeth fuddiol o'i eiddo corfforaethol (er mwyn sicrhau bod yr eiddo wedi'i hymrwymo'n ddi-alw'n ôl i ddibenion elusennol, heb ystyried y ffaith nad yw amcanion y cwmni yn cael eu hystyried yn elusennol mwyach) yw trwy osod ymddiriedolaeth.

D12. Yn y papur ymgynghorol cyhoeddus cyfeiriwyd at nifer o bryderon ynglŷn â barn y gyfraith bod ymddiriedolaeth yn cael ei gosod ar eiddo corfforaethol cwmni a oedd yn y sefyllfa hon. Ond ni rannwyd y pryderon hyn gan y rheiny a ymatebodd; y consensws oedd y **byddai** ymddiriedolaeth elusennol yn cael ei gosod gan y Llys er mwyn sicrhau bod yr eiddo yn gymwys o hyd at ddibenion elusennol. Y teimlad cyffredinol oedd y **byddai'n** annheg i gwmni anelusennol arddel perchnogaeth fuddiol eiddo y tybir ei fod wedi cronni ar sail y gydnabyddiaeth flaenorol, gywir fod y cwmni yn elusen.

D13. Y cwestiwn pwysig i'r Comisiwn yn hyn o beth yw hyn, sef, pan fydd cwmni yn peidio â bod yn elusennol yn y ffordd hon, a ddylai'r Comisiwn fynnu bod ymddiriedolaeth yn bodoli, a chymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i orfodi ymddiriedolaeth dros eiddo corfforaethol y cwmni.

D14. Nid oes unrhyw ateb cyfreithiol pendant i'r cwestiwn hwn ar hyn o bryd. Nid yw'r cwestiwn wedi codi yn ymarferol ac wrth gwrs, mae'n bosib na fydd byth yn codi.

D15. Os yw ymddiriedolaeth yn cael ei gosod ar eiddo corfforaethol cwmni nad yw'n elusennol mwyach o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol, byddai dyletswydd ar y Comisiwn i orfodi'r ymddiriedolaeth honno, yn amodol, wrth gwrs, ar ymarferoldeb y sefyllfa, ac er mwyn sicrhau y gellir defnyddio eiddo'r cwmni o hyd at ddibenion elusennol.

D16. Ond ni fyddai'n realistig i ddychmygu na fyddai cwmni sydd yn y sefyllfa hon byth yn herio honiad bod ymddiriedolaeth wedi cael ei gosod dan y gyfraith ar ei eiddo corfforaethol. Mae'n bosib y byddai cwmni a ffurfiwyd er mwyn hybu diben penodol ac ystyriwyd yn gyffredinol bod gwerth cymdeithasol y diben hwnnw wedi diflannu, yn awyddus i ddilyn y diben hwnnw o hyd. Gallai'r cwmni fod mewn sefyllfa i:

- ddadlau bod ei eiddo wedi cronni llai ar sail ei gydnabyddiaeth flaenorol fel elusen a mwy ar frwdfrydedd ei gefnogwyr dros y diben arbennig y mae'r cwmni yn ymwneud ag ef;

- dadlau yn erbyn yr honiad "y byddai'n annheg i'w ganiatáu i arddel perchnogaeth fuddiol lawn o'i eiddo corfforaethol".

D17. Mae'n amlwg y bydd penderfyniad y Comisiwn i arddel a cheisio gorfodi ymddiriedolaeth yn yr amgylchiadau hyn yn dibynnu ar y cyngor cyfreithiol a geisir os, a phan y bydd yr amgylchiadau hyn yn codi.

Nodiadau